Rydym am glywed beth fyddai Disgyblion Cyfnod Allweddol 2 a 3 yn ddweud wrth y llywodraeth am wneud i'w gwneud yn haws i gerdded a beicio i'r ysgol.

Gofynnwch i'r disgyblion ysgrifennu llythyr neu ddarn golygyddol i bapur newydd wedi ei anelu at eu llywodraeth er mwyn cael cyfle i ennill

OFFER BEICIO A CHERDDED GWERTH HYD AT £1000

i'ch ysgol yn ogystal â beic i'r disgybl buddugol.

Mae chwe phecyn cerdded a beicio i'w hennill hefyd i'r chwe disgybl ddaw agosaf i'r brig.

Am ragor o fanylion am y gystadleuaeth ewch i www.sustrans.org.uk/schooltravel

YMUNWCH Â'R MUDIAD

sustrans

JOIN THE MOVEMENT

Disgyblion Cyfnod Allweddol 2

Ysgrifennwch lythyr at brif weinidog newydd

… gan ddweud wrtho neu wrthi beth fyddech chi'n ei wneud i'w gwneud yn haws i fwy o bobl gerdded a beicio i'r ysgol.

Ni chaiff y cynigion gynnwys mwy na 300 gair.

Cysylltiadau i Gwricwlwm CA2

Saesneg: Darllen ac Ysgrifennu.
Daearyddiaeth: Ymchwiliad a sgiliau daearyddol; gwybodaeth a dealltwriaeth o leoedd, patrymau a phrosesau; newid amgylcheddol a datblygu cynaliadwy.
ABChI a Dinasyddiaeth: Materion teithio ysgol yn arbennig cysylltu gyda llinynnau 2 i 4.

Syniadau ar gyfer yr ystafell ddosbarth

- trafodaeth a dadl am siwrnai ysgol y disgyblion
- ysgrifennu llythyron a dogfennau perswadiol eraill ar gyfer ystod o ddibenion, megis cylchlythyron, gwefan, taflenni ac ati
- astudio ystod o destunau o adroddiadau ac erthyglau yn y papur newydd am faterion teithio
- astudiaeth maes o'r ardal leol yn cynnwys arolygon traffig
- edrych ar sut mae pobl yn teithio mewn rhannau eraill o'r byd
- archwilio ffyrdd o fyw iach a materion diogelwch personol.

Byddwn yn edrych am gynigion yn y ddau gyfnod allweddol sy'n dangos ymwybyddiaeth o faterion cynaliadwyedd, iechyd a diogelwch... ac sy'n cynnwys syniadau creadigol, llawn dychymyg ac arloesol!

Disgyblion Cyfnod Allweddol 3

Ysgrifennwch ddarn golygyddol i bapur newydd

…yn dweud wrth lywodraeth newydd beth sydd angen ei wneud i'w gwneud yn haws i fwy o bobl gerdded a beicio i'r ysgol.

Ni chaiff y cynigion gynnwys mwy na 500 gair.

Dylai disgyblion gynnwys o leiaf ddau o'r materion cysylltiedig:

- Seilwaith trafnidiaeth
- Y system dreth
- Diogelwch y ffordd
- Addysg
- Newid canfyddiadau

Cysylltiadau i Gwricwlwm CA3

Saesneg: llawer o gyfle i archwilio syniadau ac ysgrifennu i hysbysu, egluro a pherswadio.
Daearyddiaeth: mae gan ddisgyblion y cyfle i ddarganfod gwybodaeth am faterion cynaliadwyedd lleol ac atebion iddynt.
ABChI a Dinasyddiaeth: archwilio effaith eich siwrnai ysgol chi, yn ogystal â chyfleoedd i drafod a gweithio ar faterion byd-eang a lleol.

Syniadau ar gyfer yr ystafell ddosbarth

- edrych ar sut mae defnydd o'r car yn newid agweddau pobl at deithio
- mapio ac ymchwilio peryglon traffig o amgylch yr ysgol
- trafodaeth ar ddiogelwch: grwpiau yn rhannu gwybodaeth am broblemau
- cyfweld aelodau o'r gymuned leol: y genhedlaeth hŷn, warden traffig/heddlu, defnyddwyr ceir
- ymchwilio gwybodaeth leol o wahanol ffynonellau a fformatau am ddiogelwch ffyrdd, llwybrau beicio, llygredd, cynaliadwyedd ac ati
- ysgrifennu a chreu dogfennau eraill i berswadio a hysbysu - cylchlythyr yr ysgol, llythyr i gynghorydd lleol ac ati.

SUT I GYNNIG

Ewch i www.sustrans.org.uk/schooltravel i lawrlwytho ffurflen cynigion y gystadleuaeth, templed cynnig disgybl a dogfen Adnoddau Cystadleuaeth yn cynnwys manylion pellach am gysylltiadau i'r cwricwlwm, syniadau am weithgareddau yn ystafell ddosbarth, cynlluniau gwersi a lle i gael rhagor o wybodaeth.

Postiwch holl gynigion y disgyblion ynghyd â ffurflen cynigion y gystadleuaeth i School Travel Competition, Sustrans, 2 Cathedral Square, College Green, Bristol, BS1 5DD.

Gall cynigion fod mewn llawysgrifen neu wedi eu paratoi ar gyfrifiadur.

Y dyddiad cau ar gyfer derbyn cynigion yw 5 o'r gloch **Thursday 1st April 2010**. Caiff enwau'r enillwyr eu cyhoeddi yn ystod Wythnos Beicio i'r Ysgol, 26 – 30 Ebrill 2010.

Ar gyfer Telerau ac Amodau'r gystadleuaeth ewch i **www.sustrans.org.uk/schooltravel**

Sustrans yw elusen trafnidiaeth gynaliadwy flaenaf y DU sy'n gweithio ar brosiectau ymarferol i annog pobl i gerdded, beicio a defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus er budd ei'n hiechyd a'r amgylchedd. Gallai'r daith i'r ysgol a siwrneiau gan bobl ifanc i chwarae neu i weld ei gilydd gael ei cherdded a'i beicio yn aml iawn. Mae Sustrans yn gweithio gydag ysgolion a phobl ifanc i alluogi llawer mwy o bobl i gerdded a beicio i'r ysgol a thu hwnt.

Elusen Gofrestredig Rhif 326550 (Lloegr a Chymru) SC039263 (Yr Alban)

YMUNWCH Â'R MUDIAD
sustrans
JOIN THE MOVEMENT

schools@sustrans.org.uk 0117 915 0100 **www.sustrans.org.uk**